***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 1938 (Cy. 136 )

# ADDYSG , CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *19 Gorffennaf 2000* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Medi 2000* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ymgynghori, yn unol ag adran 3(7) o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997(**1**), â'r cyrff hynny y mae'n ymddangos iddo eu bod yn briodol ac yn cynrychioli ysgolion sy'n darparu lleoedd a gynorthwyir o dan adran 2(1) o'r Ddeddf honno.

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 3(1), (2), (5) a (9) o'r Ddeddf honno ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Diwygio) (Cymru) 2000 a deuant i rym ar 1 Medi 2000.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru yn unig.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn ysgol sy'n dechrau ar 1 Medi 2000 neu wedyn.

**Diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) 1997**

**2.**—(1) Diwygir Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) 1997(**3**) fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 10(4) a (6), yn lle "£1,300" ym mhob man lle y'i gwelir, rhoddir "£1,400".

(3) Ym mharagraff 1 o Atodlen 2, yn lle "£10,670" rhoddir "£10,901".

(4) Yn lle'r tabl sy'n dilyn paragraff 2(1) o'r Atodlen honno, rhoddir y tabl canlynol —

(**1**) 1997 p.59. Diwygiwyd adran 3 gan adran 130 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31).
(**2**) Trosglwyddwyd Swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1997/1968, a ddiwygiwyd gan O.S. 1998/1726, O.S. 1998/1966 ac O.S. 1999/1504.

**"TABLE**

| *(1)* *Part of relevant income to which specified percentage applies* | *(2)* *Only assisted pupil (%)* | *(3)* *Each of two assisted pupils (%)* | *(4)* *Each of three assisted pupils (%)* |
|---|---|---|---|
| That part which exceeds £10,735 but does not exceed £11,674 | 9 | 6.75 | 5.25 |
| That part (if any) which exceeds £11,674 but does not exceed £12,626 | 12 | 9 | 7 |
| That part (if any) which exceeds £12,626 but does not exceed £14,516 | 15 | 11.25 | 8.75 |
| That part (if any) which exceeds £14,516 but does not exceed £17,430 | 21 | 15.75 | 12.25 |
| That part (if any) which exceeds £17,430 but does not exceed £21,228 | 24 | 18 | 14 |
| That part (if any) which exceeds £21,228 | 33 | 24.75 | 19.25" |

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**4**). 19 Gorffennaf 2000

*D. Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**4**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) 1997 ("Rheoliadau 1997") mewn perthynas â blwyddyn ysgol yn dechrau ar 1 Medi 2000 neu wedyn. Mae Rheoliadau 1997 yn rhagnodi trefniadau ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i barhau i gael lleoedd a gynorthwyir mewn ysgolion annibynnol yn rhinwedd adran 2 o Ddeddf Addysg (Ysgolion) 1997, er bod y cynllun cymorth lleoedd wedi'i ddileu gan adran 1 o'r Ddeddf honno.

Mae'r swm sydd i'w dynnu yn yr incwm "perthnasol" mewn perthynas â pherthnasau dibynnol o dan reoliad 10(4) a (6) o Reoliadau 1997 yn cael ei gynyddu o £1,300 i £1,400.

Ar lefel incwm benodol, neu o dan y lefel honno, nid yw'r ffioedd yn cael eu casglu o gwbl. Mae'r lefel honno yn cael ei chynyddu i £10901 yn lle £10670, gyda chynnydd cyfatebol yn y swm nad yw'n cael ei gasglu os yw'r incwm "perthnasol" yn fwy na'r swm hwnnw.